

Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt Cylchlythyr Tachwedd 2019



Dyddiadau ar gyfer y dyddiadur

Tachwedd

20^{fed} – Diwrnod ' BEEP BEEP ' – ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen

23^{ain} – Côr yr ysgol yn canu yn Ffair Nadolig Llanfair-ym-Muallt (côr yn canu am 2pm)

27^{ain} – Panto Cymraeg – 'Arwyr' (Bl.1 – Bl6, Ffrwd Gymraeg)

Rhagfyr

2^{il} – gweithdy drama ' Tywysog Llywelyn ' (Ffrwd Saesneg CA2)

3^{ydd} – Dyddiad newydd Gala Nofio'r Urdd

4ydd – Ymweliad theatr Nadolig CA2 'Tom Gates' yn Theatr Hafren, y Drenewydd.

6^{Ed} – Ymweliad y Cyfnod Sylfaen â Theatr Brycheiniog i weld ' The Scarecrow's Wedding ' yn seiliedig ar y llyfr gan Julia Donaldson.

9^{fed} a 10^{fed} – PC Viv Ainsworth yn ymweld â phob dosbarth i gyflwyno gweithdai

12^{fed} – Cinio Nadolig a Diwrnod Siwmperi Nadolig ' Achub y Plant ' (£1 y teulu os gwelwch yn dda)

16^{eg} – Cyngerdd Nadolig (Ffrwd Saesneg, Derbyn-Bl.6) 6.30 p.m. yng Nghapel Alpha

18^{fed} – Cyngerdd Nadolig (Ffrwd Gymraeg, Derbyn – Bl.6) 6.30 p.m. yng Nghapel Alpha

18^{fed} – Parti Nadolig Cylch yn yr Ysgol/Ed Holden, beatboxer Cymreig yn ymweld â'r ysgol

19^{eg} – Partion y Cyfnod Sylfaen a Cyfnod Allweddol 2 (Diwrnod dim gwisg ysgol/dillad parti)

20^{fed} – Canu'r Nadolig a gorffen ar gyfer y Nadolig

Plant yn dychwelyd i'r ysgol Ddydd Mawrth 7fed Ionawr.

Perfformiadau Nadolig

Ar wahoddiad caredig y parch Brian Reardon, byddwn yn cynnal ein perfformiadau Nadolig yng Nghapel Alpha eleni. Er ein bod wedi cael cwpwl o berfformiadau llwyddiannus iawn yn Neuadd y Strand yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, nid oeddem yn gallu trefnu digon o amser i ymarfer gyda hwy eleni gan fod cynifer o ddiwyddiadau eraill ganddynt. Serch hynny, credwn y bydd yn arbennig iawn cael gwasanaeth Nadolig eithaf traddodiadol i'r ddwy ffrwd yng Nghapel Alpha:

Ffrwd Gymraeg – ;Newyddion Da!

Ffrwd Saesneg – 'Breaking News!'

Fel arfer, rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod gan holl ddisgyblion Blwyddyn 6 a Blwyddyn 2 ran siarad yn y sioeau. Cofiwch edrych am lythron am wisgoedd ac ati a helpwch eich plant i ddyngu eu geiriau a geiriau'r caneuon.


Digwyddiadau diweddar

Trefnodd Ffrindiau'r Ysgol **ddisgo Calan Gaeaf** yn union cyn inni dorri am hanner tymor. Nod y Ffrindiau yw codi arian i helpu gwella cyfleusterau chwarae, cyfleusterau chwaraeon a chefnogi ein hymdrechion i uwchraddio offer TGCh. Diolch i DJ Lee Jarvis am redeg y disgo ac hefyd i'n cyngor ysgol ein hunain am drefnu '**cystadleuaeth pwmpen**' wych. Cawsom 65 o geisiadau!



Fe wnaethon ni gymryd tri thîm pêl-droed i'r Wyl Bêl-droed glwstwr yn Llandrindod ar 24ain o Hydref. Roeddem yn falch iawn o allu defnyddio'r gyfres newydd ddiweddaraf o chwaraeon a ddarparwyd drwy gynllun ' sêr cynradd yr uwch gynghrair '.

Aeth Mrs Helen Davies, Mrs Westlake a Mrs Sullivan gyda'n côr ysgol i **Gyngerdd y Cofio** yn Neuadd y Strand. Ymunodd y plant ag ysgolion eraill yr ardal i ganu ' Byddwn ni'n cyfarfod eto ' ac yna perfformio eu cân eu hunain ' Byddwn ni'n eu cofio nhw '. Cymerodd llawer o'n plant ran yng nghystadleuaeth poster y Llang Brydeinig; y thema eleni oedd Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop a'r enillydd o'n hysgol ni oedd **Lily James** (Dosbarth Pen y Fan). Da iawn ti Lily!



Dyluniad poster buddugol Lily

Ymunodd Isla Rawbone a Kathryn Pope â Mr Cornelius a Mrs Michelle Davies yng **Ngwasanaeth Coffa'r Dref** ac wrth Gofeb Rhyfel y Dref a chyflwynodd y merched dorch pabi cochar ran yr ysgol. Roedd Megan a Sian Williams, Livvy Bujok a Tia Griffiths yn cynrychioli Sgowtiaid a Chenawon Llanfair-ym-Muallt, a chyflwynodd Jasmin Rollinson dorch ar ran y Pwyllgor Carnifal. Roedd llawer o deuluoedd a phlant eraill hefyd yn bresennol yn y gofeb rhyfel ar gyfer achlysur gofio deimladwy iawn.

Daeth criw '**Open the Book**' i berfformio gwasanaeth ar stori 'Daniel yn Ffau'r Llewod'.

Trefnwyd **Diwrnod Plant mewn Angen** gwych eleni gan ein Cyngor Ysgol . Roedd y digwyddiadau'n cynnwys gwisgo i fyny fel arwyr, arwresau a dihirod a losin amser egwyl. Roedd ein hysgol yn llawn o arwyr, dihirod, angenfilod, clowniau brawychus, tywysogesau, 'Wonder Women', arwyr rygbi a phêl-droed, meddygon a nyrsys, Harry Potters ac Hermiones , ymladdwyr tân a swyddogion yr heddlu ac yn hynod o amserol Greta Thunberg yn cario arwydd protest yn Swedeg

Ac wrth gwrs, trefnodd a chynhaliodd y Cyngor Ysgol **Sioe Ddoniau Anhygoel!** Bu Jasmin Rollinson, Finn Bevan, Eleri Price a Zack Palmer yn gwneud gwaith gwych yn recriwtio plant i gymryd rhan, yn hyrwyddo'r digwyddiad ac yn trefnu'r rhaglen. Roeddent hyd yn oed wedi gwneud cardiau sgôr i ddal i fyny ar gyfer pob act!



Roedd DJ Minnie Owen wedi creu awyrgylch gwych trwy gymysgu'r alawon gorau i bawb ddawnsio iddyn nhw ac yna actio gwych ar gyfer y prynhawn. Cawsom ein trin gan bianyddion a'r guitarists, perfformiadau caneuon & dawns, unawdwyr, beirdd, karate Kids, plant yn dweud jôcs a gymnastwyr. Prawf, os bu ei angen arnom erioed, fod gennym blant dawnus iawn yn Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt. Cawsom i gyd lawer o hwyl a chodi £264.45 i Blant mewn Angen.

Bu Cwmni Theatr Pandemonium yn ymweld unwaith eto i gyflawni ail ran eu sioe 'Tales from Wales '. Diddanwyd y plant â storïau am gymeriadau o Gymru - Robin Ddu, Rowli Pugh, yr Afanc, a Merched Rebecca.



Pandemonium

Daeth Tudur Rees â gweithdy drama difyr a diddorol iawn yn adrodd ' **Stori Llywelyn** ' i blant y Ffrwd Gymraeg. Cyn bo hir bydd yn cyflwyno'r un perfformiad yn Saesneg i'r Ffrwd Saesneg.

Yn anffodus, bu'n rhaid gohirio **Gala Nofio'r Urdd** , a drefnwyd i'w gynnal yn Aberhonddu ar 14 Tachwedd, oherwydd tywydd garw. Caiff ei gynnal yn awr ar Ddydd Mawrth 3ydd o Ragfyr.

Presenoldeb

Presenoldeb cyffredinol yr ysgol ar gyfer mis Hydref oedd 95.3% (Medi 92.7%)

Ein targed ar gyfer pob disgybl ar gyfer 2019-20 yw 95.8%.

Ffrwd Gymraeg

Dosbarth Irfon (REC) 95.2%

Dosbarth Gwy (Y1/2) 97.5%

Dosbarth Elan (Y3/4) 98.0%

Dosbarth Pen y Fan (Y5/6) 96.5%

Ffrwd Saesneg

Dosbarth Llyn y Fan (REC) 92.5%

Dosbarth Llyn Tegid (Y1/2) 94.0%

Dosbarth Cadair Idris (Y3/4) 95.2%

Dosbarth Tryfan (Y5/6) 94.6%

Dosbarth Eryri (ALSC) 85.9%

Plant yn cyrraedd yn hwyr ac absenoldebau – mae sawl plentyn yn cyrraedd yr ysgol ar ôl 8:50 y.b. A wnech chi gofio os gwelwch yn dda y dylem fod yn cau'r gatiau am 8:50 y.h

Os bydd eich plentyn yn absennol am unrhyw reswm, mae'n hanfodol eich bod yn cysylltu â'r swyddfa cyn l'r cofrestri gau am 9.20 y.b.

HYSBYSIAD PWYSIG

Mynnwch Microsoft Office a Minecraft: EE am ddim!

Mae Microsoft 365 ar gael am ddim i ddysgwyr ac athrawon mewn ysgolion a leolir yng Nghymru

Arbedwch arian y Nadolig hwn!

Yn syml, mewngofnodwch i Hwb a lawrlwythwch Microsoft Office ar hyd at 15 o'ch dyfeisiau personol.

'Office' sy'n cynnwys: Word, Excel, PowerPoint, Publisher, Access, OneNote, Outlook a Skype ar gyfer busnes.

Sut y gall dysgwyr lawrlwytho Microsoft Office:

-Ewch i borth dysgu Hwb

-Mewngofnodwch i'ch cyfrif Hwb (bydd ysgolion wedi darparu hyn)

-Lansio Office 365

-Gosod Office

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar Hwb.llyw.Cymru os ydych yn chwilio am 'Microsoft365. Ceir fideo o ganllawiau hefyd.

Gellir ei osod ar y rhan fwyaf o gyfrifiaduron, tabledi a ffonau.

Pwysig: Dylech ddadosod unrhyw fersiwn arall o Microsoft Office sydd gennych ar eich dyfais cyn i chi ddechrau gosod.

Disgyblion Gwnewch yn siŵr bod gennych ganiatâd cyn i chi ddechrau!



Gallwch hefyd gael mynediad at **Minecraft: Rhifyn addysg** am ddim hefyd!

Minecraft: Addysg - gêm byd agored sy'n hyrwyddo creadigrwydd, cydweithio a datrys problemau mewn amgylchedd trochi.

Sut y gall dysgwyr lawrlwytho Minecraft:

-ewch i [Education.minecraft.net](https://education.minecraft.net)

-dewiswch ' cymorth ' a ' download '

-ar ôl ei osod, mewngofnodwch gyda'ch username@hwbcymru.net

Sêr yr wythnos mis Hydref

Ffrwd Gymraeg

Dosbarth Irfon (Miss B. Williams)

Dosbarth Cyfan – ar gyfer canu mor dda yn y Gwasanaeth Diolchgarwch

Dosbarth Cyfan – am setlo'n dda a dilyn cyfarwyddiadau'n ofalus

Dosbarth Gwy (Mrs. M. Davies)

Oustin – am ganolbwyntio mor dda wrth ddarllen, ysgrifennu a gwneud Mathemateg

Imogen F. – am fod yn weithiwr bach da gan wneud gwaith darllen grŵp gwych am anifeiliaid glan-y-môr

Henry – gofyn cwestiynau ardderchog yn ei grŵp ddarllen

Eleri – darllen ac ysgrifennu'n dda iawn

Madog – ysgrifennu ardderchog am y Sioe ' Treasure Island '

Harvey – wastad yn ymdrechu'n galed ac yn gwneud cynnydd da yn ei waith

Isla R – ysgrifennu annibynnol

Dosbarth Elan (Mrs N. Coyle a Mrs G. Williams)

Esme L. – setlo i lawr i'r gwaith yn dda iawn ac ymdrechu'n galed

Osian – ysgrifennu llythyr ardderchog at y ' Gweinidog Amgylchedd '

Sioned – gwaith annibynnol rhagorol

Max – bod yn ddewr gyda'i anaf ddiweddar

Meggie – bod yn drefnus iawn ym mhopeth a wna

Evie – gwaith datrys problemau Mathemateg ardderchog
Telari – rhoi 100% i bopeth mae hi'n ei wneud
Edward – gwaith Celf ardderchog a llythyr personol

Dosbarth Pen y Fan (Mrs H. Davies)

Nansi – ysgrifennu llythyr ffurfiol da iawn am lygredd plastig
Theo – datrys problemau Mathemateg yn hyderus
Freya – creu darnau ardderchog o waith yn ei llyfr prosiect annibynnol
Charlie – gweithio'n annibynnol i ddatrys problemau siâp
Sydney – datrys problemau Mathemateg heriol
Eryn – defnyddio adferfau ardderchog yn ein gwera Saesneg

Ffrwd Saesneg

Dosbarth Llyn y Fan (Mrs N. Davies)

Dosbarth cyfan – ar gyfer canu mor dda yyn y Gwasanaeth Diolchgarwch
Dosbarth cyfan – am ddod yn fwy annibynnol a dilyn cyfarwyddiadau'n dda

-

Dosbarth Llyn Tegid (Mrs. R. Jones)

Alfie – bob amser yn rhoi o'i orau ac yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at weithgareddau
Phoebe B. – gwaith iaith rhagorol ac agwedd bositif iawn
Phoebe J. – ymdrech wych mewn ffoneg, ysgrifennu a Mathemateg
Henley – bob amser yn gweithio'n galed ac yn ceisio gweithio'n annibynnol
Sophia – gweithio'n dda ar fondiau rhif
Isla B. – rhannu rhagorol yn Mathemateg
William – defnyddio geiriau disgrifiadol gwych yn ei ysgrifennu
Jack O. – ceisio ei orau i weithio'n annibynnol a bod mor feddylgar tuag at eraill

Dosbarth Cadair Idris (Mrs. Owens a Miss Bowkett)

Amelia – brwdfrydig iawn wrth ddarllen a gweithio'n galed i gyflawni ei thargedau
Leslie – agwedd synhwyrol a chynhyrchu gwaith o safon uchel
Violet – canolbwyntio'n galed a gwneud cynnydd mawr wrth ddweud yr amser
Owyn – am ganolbwyntio'n well ac ymdrechu'n galed i gyflawni pob targed
Cian – am gerdd hyfryd ar lygredd plastig
Ryan – am fod yn Arweinydd Digidol gwych

Dosbarth Tryfan (Miss Ives)

Eadie – ymdrechu'n galed wrth ddatrys problemau Mathemateg
Zack – celfyddyd hyfryd a dyfalbarhau i gwblhau ei ' Wncwl ' .
Corey – datrys problemau yn dda iawn yn Mathemateg
Elizabeth – ysgrifennu llythyr ffurfiol anhygoel
Tia – cwblhau ei gwaith Gwyddoniaeth i safon dda ac am ei brwdfrydedd
Connor B. – ymdrechu'n galed gyda'r Gymraeg a gweithio'n annibynnol
Geire – gweithredu ar gyngor i lunio poster hyfryd
Connor W. – atebion gwych mewn sesiwn chwarae rôl ' Y Gadair Boeth '

Dosbarth Eryri (Mrs. Evans/Mrs. Goode)

Leon – ymdrech wych gyda ffoneg a gofyn ac ateb cwestiynau am y corff dynol

Ethan – ysgrifennu gwych am ' feddygon '

Jacob – cwestiynau gwych i'r parafeddygon a ymwelodd â'r dosbarth

Da iawn i bawb!

Cofion,

G. Cornelius



Cymraeg Campus

Bronze



Siarter Iaith

Bronze & Silver

